# Adroddiad Arolygu ar

**Alltymynydd**

**Cartref Nyrsio Alltymynydd**
**Llanybydder**
**SA40 9RF**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 20/10/2021

15/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn ag Alltymynydd

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Ashberry Healthcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 09/01/2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae pobl yn derbyn gwasanaeth da gan reolwr gwybodus a thîm staff ymroddgar. Ar hyn o bryd, nid oes unigolyn cyfrifol wedi'i benodi ond mae AGC wedi derbyn sicrwydd oddi wrth y darparwr fod trosolwg parhaol o'r gwasanaeth yn ystod yr adeg hon.

Mae iechyd a llesiant unigol pobl yn bwysig i'r rhai sy'n darparu'r gofal a chymorth. Mae pobl yn byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau wedi cadarnhau hyn. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod anghenion unigol pobl yn cael eu dogfennu yn gywir a bod pobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth asesu ac adolygu eu gofal.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gwaith ailwampio yn cael ei wneud i ochr allanol y brif fynedfa.

## Llesiant

Cydnabyddir dewisiadau a barn pobl. Cynorthwyir pobl i ymuno mewn gweithgareddau grŵp ac un i un o'u dewis. Mae yno weithgareddau cymdeithasol rheolaidd, y gwnaethom arsylwi arnynt yn ystod yr ymweliad arolygu.

Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion a hoffterau'r bobl. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion ynglŷn ag unrhyw gymorth penodol sydd ei angen ar unigolion a sut maent nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'r broses o gynllunio ac adolygu gofal. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol blaenorol geisio safbwyntiau'r bobl yn byw yn y gwasanaeth, a'r staff oedd yn gweithio yno, yn ystod ymweliadau personol a rhithiol. Mae gan bobl fynediad i wybodaeth am sut i godi pryder os oes angen, a dywedodd un unigolyn wrthym, *"Byddwn i'n siarad â'r rheolwr neu un o'r staff pe bai gen i bryder"* ac fe ddywedodd perthynas wrthym, *"Nid wyf wedi cael rheswm i gwyno, ond pe byddai rheswm i wneud hynny, rwy'n credu y byddai rhywun yn gwrando arnaf."* Gall bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely gydag eitemau sydd yn bwysig iddyn nhw fel dodrefn, addurniadau, ffotograffau, posteri a dillad gwely. Mae pobl yn cael cynnig bwyd a lluniaeth o'u dewis gydag opsiynau amgen ar gael yn rhwydd.

Mae pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Roedd y gweithwyr gofal yn siarad yn ofalgar am y bobl sy'n byw yn y cartref ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r bobl, eu hanghenion, a sut mae diwallu'r anghenion hyn. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â phobl ac yn eu cynorthwyo mewn ffordd ystyriol a gofalgar. Mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith ac mae staff yn deall yn glir beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran sut i reoli ac atal heintiau. Mae'r gwasanaeth yn lân a heb oglau drwg, ac mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw a gwelliannau. Mae mesurau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff gofal sy'n gweithio yn y cartref y sgiliau ac ymagwedd gywir tuag at ofal. Mae'r cartref yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod pobl yn cadw mor iach â phosib.

## Gofal a Chymorth

Darperir gofal a chymorth gan dîm o staff sydd â dealltwriaeth dda o anghenion pobl a sut i ddarparu gofal a chymorth priodol. Siaradodd y staff i gyd yn frwdfrydig ynglŷn â gofalu am bobl a gweithio yn y gwasanaeth. Mae lefelau staff digonol ar waith i ddiwallu anghenion pobl ac i ganiatáu amser ar gyfer rhyngweithiadau ystyrlon.

Mae'r staff yn cynorthwyo pobl mewn ffordd broffesiynol a gofalgar. Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw'n cael gofal da a bod y staff yn garedig a chymwynasgar. Mae'r sylwadau yn cynnwys: *"Mae'r gofalwyr yn ardderchog, maen nhw fel ail deulu i mi"* ac *"Maent i gyd mor hyfryd, mor garedig."* Siaradodd y perthnasau yn gadarnhaol hefyd ynglŷn â'r gofal y mae eu hanwyliaid yn ei dderbyn, gan gynnwys: *“Rwy'n gwybod bod Mam yn cael gofal da; mae'r gofalwyr mor dda iddi"* ac *"Mae'r gofalwyr a'r nyrsys yn wych!"*

Mae gan y gegin Sgôr Hylendid Bwyd o bum seren. Mae'r bwydlenni yn cynnig dewisiadau amrywiol bob dydd. Dywedodd pobl wrthym fod dewis ar gael ar y fwydlen ac ar bob adeg gallant ofyn am bryd o fwyd sydd yn wahanol i'r un ar y brif fwydlen os dymunant. Mae prydiau bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phleserus iawn yn ôl pob golwg, ble mae pobl yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i fwyta eu bwyd.

Mae'r staff gofal yn defnyddio cofnodion gofal electronig, sydd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gofal a chymorth sydd eu hangen ar bobl i'w cadw'n iach. Mae cynlluniau gofal yn darparu manylion am anghenion pobl; fodd bynnag, mae angen mwy o wybodaeth sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn rhoi gwell ymdeimlad o'r unigolyn a'i anghenion gofal a chymorth penodol i'r gweithwyr gofal. Yn ogystal, mae angen rhagor o waith i ddangos sut mae unigolion a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o asesu ac adolygu eu gofal, yn enwedig yn ystod y pandemig.

Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â phobl ac mae hyn wedi cael ei nodi yn eu cofnodion gofal. Mae mesurau priodol ar waith ar gyfer storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o arferion meddyginiaeth diogel a gwybodaeth dda am ddefnyddio meddyginiaethau penodol i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risg a berir gan heintiau. Wrth gyrraedd, gofynnwyd i ni ddangos prawf llif unffordd dilys, gwnaethom roi ein manylion cyswllt, a chafodd ein tymheredd ei fesur a'i gofnodi. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rheolwr wedi gweithio gyda swyddogion iechyd yr amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â mesurau atal a rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo arfer da, ac mae'r staff gofal yn glir ynglŷn â'r rhain a'u cyfrifoldebau ynghylch amddiffyn pobl rhag cael eu heintio.

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risg i iechyd a diogelwch pobl. Mae gwaith profi a gwasanaethu cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae'r Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi cael eu personoli ac maent ac ar gael yn rhwydd mewn argyfwng. Mae'r larymau tân o fewn cyrraedd ac mae pobl yn ymateb iddynt o fewn amser priodol pan fyddant yn canu. Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith oherwydd y pandemig, gyda gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol wedi'u lleoli ledled y cartref. Mae dulliau profi COVID-19 ar waith i bob ymwelydd sydd yn dod i gwrdd â'i berthynas yn y cartref. Mae sylweddau sydd yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae'r gwasanaeth yn lân a heb unrhyw aroglau drwg.

Mae'r amgylchedd yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol Mae cynllun y gwasanaeth yn galluogi pobl i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. Mae'r addurn wedi cael ei ddylunio i ysgogi ac i fod o gymorth wrth gyfeirio. Mae gwaith ailaddurno ac ailwampio mewnol wedi cael ei wneud ac yn parhau. Mae ystafelloedd gwely pobl wedi cael eu personoli gydag eitemau o ddodrefn, addurniadau, ffotograffau ac argraffiadau. Mae pobl yn gallu personoli eu hystafelloedd gwely gyda ffotograffau, lluniau ac eitemau sydd yn bwysig iddynt.

Mae caffi wedi ei leoli ar safle'r gwasanaeth, ac mae gwaith yn cael ei wneud i wella'r brif fynedfa er defnydd a phleser pobl a'u hymwelwyr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol blaenorol wedi ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 73 yn rhithiol ac yn bersonol â'r gwasanaeth yn ystod y pandemig. Mae hefyd wedi darparu copïau o adroddiadau sy'n enwi pobl a staff y siaradwyd â nhw fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cynnal cyfarfodydd "Dywedasoch chi … Gwnaethom ni" gyda staff i gael eu safbwynt ac i roi adborth ar weithrediadau a gymerwyd gan y sefydliad. Cafodd hyn ei gadarnhau gyda ni gan y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae yno ystod o offer monitro ac archwiliadau y mae'r rheolwr yn ymgymryd â hwy. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu yn rheolaidd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u cefnogi'n dda gan y rheolwr: "*Mae'r rheolwr yn rhagorol, yn hawdd mynd ati."*Mae'r staff yn teimlo yn hyderus o ran siarad â'r rheolwr neu aelod o'r uwch-dîm os oes ganddynt broblem: *"Rwy'n gwybod y gallaf siarad â [y rheolwr] neu un o'r nyrsys os oes gen i unrhyw ymholiadau."* Dywedodd y staff hefyd fod y rheolwr wedi dod ag anrhegion iddynt i roi diolch iddynt am eu holl waith caled yn ystod y pandemig COVID-19. Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau i ni o ran lleihau ymlediad COVID-19.

Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod nhw'n derbyn cyfnod sefydlu cynhwysfawr, goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae staff yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol ac fe gadarnhawyd hyn gan fatrics hyfforddi'r gwasanaeth. Dywedodd staff gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent wedi'i fynychu ac roeddent yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn unigolion ac o weithdrefnau symud a thrin. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith i gefnogi staff ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Mae cofnodion recriwtio staff  yn cynnwys yr holl wybodaeth a gwiriadau angenrheidiol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 30/12/2021